Y WERIN
CRONFA DREFTADAETH
LEGACY FUND
Ymddiriedolaeth Gwaddol Cyfyngedig PC
The UW Restricted Endowment Trust

# Ysgoloriaeth Deithio Goffa Geoffrey Crawshay

*Darperir yr Ysgoloriaeth hon o'r incwm o Gronfa Goffa a godwyd drwy danysgrifiadau cyhoeddus i beri cofio enw y Capten Geoffrey Crawshay, LLD.*

1. Bydd UWRET yn dyfarnu'r ysgoloriaeth hon o dro i dro i alluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i deithio ym Mhrydain neu dros y môr gyda'r bwriad o ehangu a chyfoethogi profiad esthetig yr ymgeisydd mewn cangen o'r Celfyddydau Cain. Nid yw'r dyfarniad i gael ei ddefnyddio ar gyfer astudio gradd neu ddiploma ond yn hytrach i hybu ymarfer yn y celfyddydau ac i feithrin gwerthfawrogiad o'r celfyddydau; rhoddir blaenoriaeth i ymgeisydd sy'n dangos gallu eithriadol yn un o'r Celfyddydau.
2. Bydd UWRET yn cymryd camau i roi cyhoeddusrwydd i'r Ysgoloriaeth pryd bynnag y bydd digon o arian ar gael i wneud dyfarniad. Wrth benderfynu ar y swm a roddir, bydd UWRET yn rhoi sylw i'r gost sy'n debyg o gael ei thynnu; gall fod gymaint â £1500[1]. Gall UWRET argymell gwneud mwy nag un dyfarniad ar yr un pryd, ar yr amod bod digon o arian ar gael; ac, mewn amgylchiadau eithriadol iawn, gall argymell dyfarniad o fwy na £1500.
3. Ni chaiff y Celfyddydau Cain a all gael eu cynnwys o dan Reoliad 1 eu diffinio'n fanwl-gywir, ond fe fyddant yn cynnwys Cerddoriaeth, Drama, Peintio, Cerflunio a Phensaernïaeth.
4. Ystyrir ceisiadau oddi wrth y personau canlynol:
   (a) ymgeiswyr sy'n astudio ers dwy flynedd o leiaf ym Mhrifysgol Cymru;
   (b) ymgeiswyr a all ddangos eu bod wedi eu geni yng Nghymru, neu fod ganddynt rieni o Gymru neu eu bod wedi eu haddysgu yng Nghymru, ac sy'n astudio ers dwy flynedd o leiaf yn y Coleg Celf Brenhinol, Ysgol Gelf Slade, y Coleg Cerddoriaeth Brenhinol, yr Academi Cerddoriaeth Frenhinol, Academi Frenhinol Celf Ddramatig neu'r cyfryw sefydliadau eraill ag a gymeradwyir gan y Brifysgol at ddibenion y rheoliadau hyn;
   (c) ymgeiswyr sy'n astudio unrhyw un o'r pynciau a enwir yn Rheoliad 3 ers dwy flynedd o leiaf mewn Coleg neu Ysgol Gelf neu Gerdd neu Ddrama neu Bensaernïaeth yng Nghymru, a gymeradwyir gan UWRET at ddibenion y rheoliadau hyn.
5. Dylai'r cais roi manylion cymhwyster, cymwysterau a hyfforddiant yr ymgeisydd, a sut y defnyddir yr ysgoloriaeth os yw'n llwyddiannus. Dylid nodi hefyd faint o amser y byddai'r daith arfaethedig yn debyg o'i gymryd, a rhoi amcangyfrif o'r gwariant sydd o dan sylw. Dylid rhoi enwau dau berson a fydd yn fodlon darparu tystiolaeth ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd i gael yr ysgoloriaeth.
6. Disgwylir i dderbynwyr yr ysgoloriaeth gyflwyno adroddiad byr i UWRET ar ddiwedd eu deiliadaeth ar y defnydd a wnaed ohoni.
7. Bydd yr Ysgoloriaeth yn werth rhyw £1,500 a delir mewn dau randaliad. Telir 75% o werth yr Ysgoloriaeth ymlaen llaw, a'r 25% arall pan gyflwynir adroddiad boddhaol gan y deiliad.
8. Heb ganiatâd arbennig UWRET, ni chaiff unrhyw ysgolhaig ddal unrhyw ysgoloriaeth neu daliad arall sy'n gysylltiedig ag unrhyw brifysgol, coleg neu gronfa gyhoeddus arall tra bydd dyn dal yr ysgoloriaeth.
9. Rhaid i'r ceisiadau gyrraedd UWRET erbyn 1 Mawrth[2], neu ddyddiad arall a gyhoeddir o dro i dro.

---

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at 'Brifysgol/ion yng Nghymru' yn golygu sefydliadau achrededig blaenorol Prifysgol Cymru neu brifysgolion eraill sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
2. Mewn rhai blynyddoedd gellir estyn y dyddiad cau